Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

Cynllun Gweithredu wedi'i Ddiweddaru ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych
Dyddiad yr archwiliad: 15 – 19 Gorffennaf 2013
Dyddiad yr ymweliad dilynol cyntaf: 25 – 26 Ionawr 2017

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 30 Medi – 2 Hydref 2025

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 3.18 (i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid cynnwys dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sy'n ofynnol o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael, ynghyd â chynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. [Y Safon – 3.1] | Glas | Sicrhau bod cynllun Cyflenwi Gwasanaeth yn cael ei lunio yn unol â'r canllawiau cynllunio gwasanaeth. Rhaid iddo nodi'r rhaglen o arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn ôl categori risg yn unol ag Atodiad 5 o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, y nifer amcangyfrifedig o ailymweliadau, y nifer tebygol o ymchwiliadau i glefydau heintus a digwyddiadau bwyd, y dyraniad ariannol gyda dadansoddiad o'r costau, ac amcangyfrif o'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer pob agwedd ar ddarparu'r gwasanaeth. Hefyd, rhaid dadansoddi cyfanswm yr adnoddau staffio sydd ar gael o'i gymharu â chyfanswm yr adnoddau staffio sy'n ofynnol i ddarparu'r | Mae'r cynllun gwasanaeth diweddaraf yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol. | Cwblhawyd. |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaeth yn llwyr a, phan fo'n berthnasol, rhaid darparu cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg a nodir. | | |
| 3.18 (ii) Mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran cyflawni cynllun darparu'r gwasanaeth mewn cynlluniau gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod yr adolygiad o berfformiad y flwyddyn flaenorol sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun gwasanaeth yn nodi ac yn egluro unrhyw amrywiadau'n glir ac yn eu cynnwys yn y meysydd i'w gwella yn y dyfodol. | Nid yw'r adolygiad ond yn cwmpasu rhai o rwymedigaethau'r awdurdod. | Sicrhau bod yr adolygiad yn cwmpasu holl rwymedigaethau'r awdurdod, gan gynnwys gwaith ymatebol a gwaith samplu. Sicrhau bod pob amrywiad yn cael ei nodi a'i egluro a'i fod yn cael sylw fel maes i'w wella. |
| 4.6 (i) Sicrhau bod yr holl ddogfennau a gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y bydd deddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog yn newid. [Y Safon – 4.1] | Glas | Cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Gorfodi. | Cafodd y Polisi Gorfodi Corfforaethol ei adolygu a'i ddiweddaru. | Cwblhawyd. |
| 4.6 (ii) Ehangu ei system rheoli dogfennau i gynnwys gweithgareddau gorfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 4.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 5.19 (i) Adolygu a diwygio'r cynllun dirprwyo i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i chynnwys ac yn gyfredol. [Y Safon – 5.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.19 (ii) Sicrhau bod yr holl swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol wedi'u hawdurdodi'n briodol, ac adolygu, diwygio a chyflwyno ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion er mwyn:<br><br>(a) Nodi dynodiad y swyddog awdurdodi;<br>(b) Nodi bod swyddogion anawdurdodedig wedi'u gwahardd rhag cyflawni unrhyw weithgarwch y mae angen awdurdodiad ar ei gyfer yn ôl y Codau Ymarfer;<br>(c) Sicrhau bod cymwyseddau swyddogion yn cael eu hasesu a'u cofnodi yn unol â'r weithdrefn awdurdodi.<br>[Y Safon – 5.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.19(iii) Adolygu a diweddaru'r matrics 'Asesiad Cymhwysedd' i gynnwys yr | Glas | Cwblhawyd. | | |

| CAMAU I FYND I’R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI’N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| holl ddeddfwriaeth berthnasol a sancsiynau rheoleiddio. [Y Safon – 5.1] | | | | |
| 5.19 (iv) Adolygu awdurdodiadau swyddogion i sicrhau eu bod yn gyson â’u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a’r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.19 (v) Sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen er mwyn iddynt fod yn gymwys i gyflawni agweddau technegol ar y gwaith y byddant yn ymwneud ag ef, yn unol â’r Codau Ymarfer. [Y Safon - 5.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.19 (vi) Rhoi gwybod i’r Asiantaeth Safonau Bwyd am staff a oedd wedi’u hawdurdodi o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a’r Amgylchedd 1985 ond nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod mwyach. [Y Safon – 18.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.19 (vii) Penodi nifer digonol o swyddogion awdurdodedig i gyflawni’r gwaith a nodir yn y cynllun darparu gwasanaeth. [Y Safon – 5.3] | Oren | Nifer digonol o swyddogion i’w penodi yn unol â dadansoddiad o’r adnoddau sydd wedi’i | Cafodd nifer y swyddogion sydd eu hangen ei asesu. | Nifer digonol o swyddogion i’w penodi yn unol â dadansoddiad o’r adnoddau sydd wedi’i |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | gynnwys yn y cynllun gwasanaeth. | | gynnwys yn y cynllun gwasanaeth. |
| 6.15 (i) Sicrhau bod offer yn cael eu cynnal a'u cadw a'u graddnodi'n iawn. I gefnogi'r dasg hon, dylid cynnal a gweithredu'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal a chadw a graddnodi, gan gynnwys cofnodion graddnodi a gwiriadau eraill. [Y Safon – 6.2] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 6.15 (ii) Gweithredu'r gronfa ddata safleoedd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod modd darparu gwybodaeth ddibynadwy am safonau bwyd i'r ASB. [Y Safon – 6.3] | Glas | Cwblhau'r broses o lwytho data monitro blynyddol dibynadwy am waith gorfodi i'r ASB. | Cwblhawyd yr arolwg diwethaf gan ddefnyddio data dibynadwy am safonau bwyd. | Cwblhawyd. |
| 7.24 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid safleoedd yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod safleoedd yn cael eu harchwilio yn ôl yr amlder gofynnol. | Mae ymyriadau'n cael eu targedu at safleoedd risg uchel a sefydliadau nad ydynt wedi'u sgorio, ond nid yw'r awdurdod yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau mewn safleoedd risg ganolig a risg isel ac nid oes cynllun yn ei le i sicrhau bod yr awdurdod yn | Sicrhau bod safleoedd yn cael eu harchwilio yn ôl yr amlder gofynnol. |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | | gweithredu eto mewn ffordd sy'n gyson â'r Cod. | |
| 7.24 (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol neu archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod sgoriau risg yn gyson â chanfyddiadau, bod unrhyw benderfyniadau i leihau sgoriau yn cael eu cofnodi, a bod ailymweliadau yn cael eu cynnal yn brydlon, pan fo'n briodol.<br>Sicrhau bod pob busnes sy'n destun Strategaeth Orfodi Amgen yn gymwys. | Mae'r sgoriau risg yn gyson â'r canfyddiadau, ac nid oedd unrhyw achosion o leihau sgoriau wedi'u cynnwys yn y ffeiliau a wiriwyd.<br><br>Cynhelir ailymweliadau'n brydlon pan fo'n briodol.<br><br>Mae'r weithdrefn Strategaeth Orfodi Amgen yn nodi safleoedd sy'n gymwys. Nid yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. | Cwblhawyd. |
| 7.24 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith, a chymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achos o | Glas | Gwella cysondeb y gwaith o asesu bwyd a fewnforiwyd a nodau adnabod, HACCP a chroeshalogi. | Cynhaliwyd asesiadau o fwyd a fewnforiwyd a nodau adnabod, HACCP a chroeshalogi. | Cwblhawyd. |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| ddiffyg cydymffurfio a nodir, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | | | | |
| 7.24(iv) Gweithredu gweithdrefnau dogfenedig yn llawn ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.24(v) Sicrhau bod arsylwadau a wneir yn ystod ymyriad/arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Glas | Gwella cysondeb cofnodion arolygu bwyd a fewnforiwyd a nodau adnabod, HACCP a chroeshalogi. | Roedd ffurflenni digidol yn cofnodi manylion bwyd a fewnforiwyd, nodau adnabod, HACCP a chroeshalogi. | Cwblhawyd. |
| 7.40 (i) Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na'r amlder a bennir o dan y cynllun sgorio ymyriadau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod safleoedd yn cael eu harchwilio yn ôl yr amlder gofynnol. | Mae ymyriadau'n cael eu targedu at safleoedd risg uchel a sefydliadau nad ydynt wedi'u sgorio, ond nid yw'r awdurdod yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau mewn safleoedd risg ganolig a risg isel ac nid oes cynllun yn ei le i sicrhau bod yr awdurdod yn | Sicrhau bod safleoedd yn cael eu harchwilio yn ôl yr amlder gofynnol. |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | | gweithredu eto mewn ffordd sy'n gyson â'r Cod. | |
| 7.40 (ii) Amlygu pob sefydliad sydd wedi cael sgôr risg heb arolygiad llawn, arolygiad rhannol neu archwiliad, a'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad; cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod pob arolygiad yn ddirybudd neu, pan benderfynir rhoi rhybudd, sicrhau bod y rheswm dros y penderfyniad hwnnw yn cael ei gofnodi yn ffeil y sefydliad. | Ymyriadau dirybudd. Mae ffurflenni digidol yn cynnwys maes ar gyfer cofnodi rhesymau dros apwyntiad. | Cwblhawyd. |
| 7.40 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Gwyrdd | Gwella cysondeb y gwaith o asesu cydymffurfiaeth, olrheiniadwyedd a gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl. | Cafodd rhai ymyriadau eu hasesu'n gywir. | Sicrhau bod asesiadau'n cynnwys yn gyson wybodaeth am gyflenwyr a chwsmeriaid, am gydymffurfiaeth, am olrheiniadwyedd ac am weithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl. |
| 7.40 (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.40 (v) Sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau yn cael eu | Gwyrdd | Gwella cofnodion arolygu manylion cyflenwyr a chwsmeriaid, | Mae rhai cofnodion ymyrryd yn cynnwys | Sicrhau bod yr holl gofnodion arolygu'n cynnwys manylion |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| storio mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu hadalw. [Y Safon – 7.5] | | cydymffurfiaeth, olrheiniadwyedd a gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl. | yr holl wybodaeth ofynnol. | cyflenwyr a chwsmeriaid ac asesiadau o gydymffurfiaeth busnesau â'r gofynion olrheiniadwyedd a'r gweithdrefnau tynnu a galw bwyd yn ôl. |
| 8.14 (i) Adolygu a diweddaru'r Weithdrefn Gwyno er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion ar gasglu gwybodaeth allweddol. [Y Safon – 8.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.14 (ii) Ymchwilio i gwynion sy'n dod i law yn unol â'r Codau Ymarfer, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 11.5 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig i sicrhau bod ei gronfeydd data safonau bwyd a safleoedd bwyd anifeiliaid yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.15 (ii) Adolygu a diweddaru'r gweithdrefnau samplu cofnodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | Cwblhawyd | | |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 12.15(iii) Cymryd camau priodol pan ystyrir bod canlyniadau samplau yn anfoddhaol. [Y Safon – 12.7] | Gwyrdd | Sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd ac awdurdodau lleol eraill yn cael eu hysbysu'n gyson am ganlyniadau anfoddhaol, pan fo'n briodol, a bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â gosod bwyd anfoddhaol ar y farchnad. | Hysbyswyd rhai busnesau am ganlyniadau samplu anfoddhaol. | Sicrhau bod busnesau bwyd ac awdurdodau lleol eraill yn cael gwybod am ganlyniadau anfoddhaol a bod camau priodol yn cael eu cymryd. |
| 13.8 (i) Sicrhau bod y cynllun ar gyfer rheoli brigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gynnal a'i weithredu'n llwyr. [Y Safon – 13.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 13.8 (ii) Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd sydd wedi'u cadarnhau neu'u hamau yn cael ei gweithredu. [Y Safon – 13.2] | Glas | Sicrhau yr ymchwilir i bob hysbysiad am achosion o glefydau heintus y bernir eu bod yn rhai risg isel, gan gynnwys drwy lenwi holiaduron yn drylwyr, yn unol â gweithdrefn yr awdurdod a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. | Lluniwyd system newydd i gysylltu ag achosion o glefydau heintus risg isel ac i roi sylw dilynol iddynt, ac mae hyn wedi sicrhau bod y broses yn fwy esmwyth a'r cyfraddau ymateb yn uwch. | Cwblhawyd. |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 13.8 (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli brigiadau o achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, ac ymchwilio iddynt, yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 13.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 15.16 (i) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi yn cael ei gynnal a'i weithredu'n llwyr yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1] | Glas | Cwblhau'r gwaith o lunio'r polisi gorfodi, gan sicrhau ei fod yn cynnwys ystyriaethau'r Cynllun Prif Awdurdod. | Cafodd y Polisi Gorfodi ei lunio'n llwyr, ac fe'i hategir gan Bolisi Gorfodi Diogelwch Bwyd. | Cwblhawyd. |
| 15.16 (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer gwaith dilynol a chamau gorfodi mewn perthynas ag erlyniadau, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 15.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 15.16 (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi'r gyfraith hylendid bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. Dylid cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrthynt. [Y Safon – 15.3 a 15.4] | Gwyrdd | Sicrhau y caiff tystiolaeth i ddangos bod Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi'u cyflwyno ei chadw, bod unrhyw estyniad yn cael ei weinyddu'n gywir, a bod cydymffurfiaeth yn cael ei chadarnhau yn ysgrifenedig. | Nid oedd tystiolaeth o gyflwyno hysbysiadau nac o gadarnhau cydymffurfiaeth yn cael ei chofnodi fel mater o drefn, ac nid oedd dim estyniadau wedi'u rhoi. | Sicrhau bod tystiolaeth o gyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid yn cael ei chadw mewn ffordd gyson, bod unrhyw estyniad yn cael ei weinyddu'n briodol a bod cydymffurfiaeth yn cael ei |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | | | chadarnhau'n ysgrifenedig. |
| | | O ran unrhyw hysbysiad gwahardd, sicrhau bod manylion y Llys yn cael eu darparu i'r busnes, a bod cofnod yn cael ei wneud o roi'r Gorchymyn Llys ac o'r cais i ddiddymu'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn. Sicrhau bod y cau yn cael ei fonitro'n briodol. | Darparwyd manylion y llys i'r busnes yn yr hysbysiad gwahardd ac roedd tystiolaeth ar gael o ddiddymu'r hysbysiad. | Cwblhawyd. |
| | | Pan gaiff bwyd ei atafaelu neu ei ildio'n wirfoddol, ceir cofnod o'r cyflwyniad i'r Llys ac o ddinistrio / gwaredu'r bwyd (gan gynnwys yr amser a'r lleoliad). Sicrhau bod yr ildio gwirfoddol yn cael ei gofnodi felly yn y gronfa ddata. | Mae'r holl gofnodion sy'n ymwneud ag atafaelu bwyd ac ildio bwyd yn wirfoddol ar gael ar ffeil yn ôl yr angen. | Cwblhawyd. |
| | | Sicrhau nad yw rhybuddion syml ond yn cael eu dyroddi mewn amgylchiadau priodol ac yn unol â'r Polisi Gorfodi a bod y penderfyniad yn cael | Nid oedd dim rhybuddion syml nac erlyniadau ar gael o fewn cwmpas yr archwiliad hwn – heb ei brofi. | Sicrhau nad yw rhybuddion syml ond yn cael eu dyroddi mewn amgylchiadau priodol ac yn unol â'r Polisi Gorfodi a bod y penderfyniad yn cael |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | ei wneud yn gywir ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn unol â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br>Sicrhau bod copi o gymeradwyaeth y swyddog erlyn ar gyfer erlyniadau ar gael. | | ei wneud yn gywir ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn unol â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br>Sicrhau bod copi o gymeradwyaeth y swyddog erlyn ar gyfer erlyniadau ar gael. |
| 16.6 (i) Cynnal cofnodion cyfredol sy'n cynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, y penderfyniadau ynghylch gofynion cyfreithiol a wnaed gan swyddogion awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd pan amlygwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw waith samplu, manylion unrhyw gwynion a'r camau a gymerwyd, a gwybodaeth berthnasol am gofrestru a chymeradwyo busnesau bwyd a/neu fwyd anifeiliaid. Yn ogystal, dylid cofnodi unrhyw wyriadau oddi wrth y gweithdrefnau penodedig, a'r rhesymau drostynt. [Y Safon – 16.1] | Glas | Sicrhau bod cofnod o Bwyntiau Rheoli Critigol ar gael ar ffeil ar gyfer pob sefydliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Hefyd, sicrhau bod amserlenni ar gyfer cydymffurfio yn cael eu cynnwys yn gyson ar gyfer pob achos o dorri'r gofynion a nodir mewn adroddiadau arolygu. | Roedd y cofnodion yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol ofynnol. | Cwblhawyd. |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 16.12 (i) Cynnal cofnodion cyfredol ar ffurf y gellir ei hadalw ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, y penderfyniadau ynghylch cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd pan amlygwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio, a gwybodaeth berthnasol am gofrestru sefydliadau bwyd. [Y Safon – 16.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod adroddiadau arolygu ar gael yn gyson, eu bod yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer uwch swyddog ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio, a'u bod yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. | Roedd adroddiadau arolygu ar gael, ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt uwch swyddog ac yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. | Sicrhau bod amserlenni ar gyfer cydymffurfio yn cael eu dogfennu ar gyfer safonau bwyd. |
| 16.12 (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2] | Glas | Sicrhau bod cofnodion sefydliadau ar gael. | Mae gwybodaeth ar gael mewn cronfa ddata electronig. | Cwblhawyd. |
| 19.13 (i) Datblygu ymhellach a gweithredu'n llwyr y weithdrefn fonitro fewnol ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y Cytundeb Fframwaith yn cael sylw. [Y Safon – 19.1] | Glas | Datblygu'r weithdrefn ymhellach i gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen, ymatebion i rybuddion a digwyddiadau bwyd, a chroesgyfeiriad at yr | Mae'r weithdrefn wedi'i diwygio. | Cwblhawyd. |

| CAMAU I FYND I'R AFAEL Â NHW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| | | agweddau ar y weithdrefn rheoli cronfeydd data sy'n ymwneud â monitro. | | |
| 19.13 (ii) Cadarnhau ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.2] | Glas | Cynnwys gwaith mewnol i fonitro ffeiliau sampl anfoddhaol, cwynion a cheisiadau am wasanaeth, Strategaeth Orfodi Amgen, ymatebion i rybuddion a digwyddiadau, camau gorfodi. | Er nad oes Strategaeth Orfodi Amgen ar waith, mae ffeiliau sampl a gwaith ymatebol yn cael eu monitro. | Cwblhawyd. |

Cynllun Gweithredu Archwiliad CSHB 2017/18 ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych

| ARGYMHELLIAD | STATWS | HEB EI GYFLAWNI | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau yn sgil yr archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | Mae hyn i gynnwys ymrwymiadau i gyflawni ymyriadau a hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac i gynnwys dull o fynd i'r afael â busnesau newydd. Hefyd, mae'r rhaglen i gynnwys manylion yr ymyriadau sydd i fod i gael eu cynnal, y busnesau newydd disgwyliedig, yr ymyriadau nad ydynt wedi'u sgorio, | Diweddarwyd y cynllun gwasanaeth i gynnwys yr wybodaeth hon. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | a'r ymyriadau a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â swyddogion awdurdodedig yn sgil yr archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | Sicrhau bod swyddogion awdurdodedig wedi ymgymryd â hyfforddiant cysondeb. | Mae swyddogion wedi ymgymryd â hyfforddiant cysondeb yn ddiweddar. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â sgorio ac ailsgorio yn sgil yr archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Gwyrdd | Sicrhau bod sgoriau ac ailsgoriau'n cael eu cyfrifo'n gywir. | Mae'r dyddiadau dyladwy a chyfansymiau'r sgoriau yn cael eu cyfrifo'n gywir. | Sicrhau bod safleoedd lle ceir risg sylweddol o halogiad neu o oroesiad pathogenau yn cael eu sgorio'n gyson o ran y sgôr hyder yn y rheolwyr. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau yn sgil yr archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | Sicrhau bod gweithdrefnau, gan gynnwys *aide-mémoires* a thempledi llythyrau, yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. | Mae gweithdrefnau ar gyfer gwneud copi wrth gefn o'r cronfeydd data bellach wedi'u darparu. Cafodd gweithdrefnau, *aide-mémoires* a thempledi llythyrau adroddiadau eu diwygio. | Cwblhawyd. |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| Camau gweithredu mewn perthynas ag adroddiadau ymyriadau yn sgil yr archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Cafodd y templed llythyrau ei ddiwygio i sicrhau bod yr holl wybodaeth am wneud cais i ailsgorio busnes, gan gynnwys y gost, yn cael ei | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | darparu i'r gweithredwr busnes bwyd. | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil yr archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | Diwygio'r weithdrefn i gofnodi faint o weithgarwch monitro sy'n cael ei gynnal ac amlder y gweithgarwch hwn. Monitro camau i rannu gwybodaeth ddiogelu, dyddiadau dyladwy, a chyfansymiau cywir wrth bennu sgoriau. | Cafodd y weithdrefn ei diwygio. Mae gwybodaeth ddiogelu'n cael ei rhannu, ac mae dyddiadau dyladwy a chyfanswm sgoriau i gyd yn cael eu monitro. | Cwblhawyd. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **45** |
| **Cwblhawyd** | **35** |
| **Cynnydd da** | **7** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **3** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **10** |